

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

|  |                 |
|--|-----------------|
| <b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>   | 18 Ionawr 2022  |
| <b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 2 Chwefror 2022 |

**PWNC**

Eitem 6:DATHLU DYDD GWYL DEWI

**PENDERFYNIAD**

- Dynodwyd dydd Gŵyl Ddewi yn ddiwrnod o wyliau ychwanegol i staff y Cyngor sy'n gweithio ar delerau gwaith gweithwyr llywodraeth leol, ar gyfer dathlu diwrnod ein nawddsant cenedlaethol i'w ariannu yn unol a paragraff 2.10 o'r adroddiad.
- Awdurdodwyd swyddogion i ymchwilio i opsiynau posib i wneud trefnant o'r fath yn un parhaol ac i'r perwyl hwnnw cynnal trafodaethau pellach gyda'r undebau llafur cydnabyddedig a parhau i lobio am gefnogaeth Llywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru sefydlu gwyliau banc i Gymru.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 7fed o Hydref, penderfynwyd fel a ganlyn:

- Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cabinet ystyried dynodi Dydd Gŵyl Ddewi yn swyddogol drwy roi diwrnod o wyliau i'w gweithlu er dathlu Diwrnod ein Nawddsant ar Fawrth 1af 2022 a phob blwyddyn o hynny ymlaen.
- Bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru creu gwyliau banc i Gymru (drwy'r Banking and Financial Dealings Act 1971) – yn yr un modd ag yw'r drefn eisoes yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Nodwyd fod gwyliau bynyddol yn fater cytundebol sydd yn ymwneud â chyflogaeth staff y Cyngor ac o ganlyniad bod gofyn i'r Cyngor fel cyflogwr drafod y mater yn lleol fel rhan o amodau gwaith gweithiwr llywodraeth leol gyda cynrychiolwyr y 3 undeb cydnabyddedig.

Eglurwyd fod amondau gwaith Athrawon yn fater y byddai'n ofynnol ei drafod ar lefel genedlaethol ac nid oes modd sefydlu Dydd Gŵyl Dewi fel diwrnod o wyliau i athrawon drwy ddod i gytundeb yn lleol.

O ganlyniad i hyn nodwyd y bydd angen ymwchilio i opsiynau posib i wneud trefniant o'r fath yn un parahol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU**

---

**PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---